# <u>5ed Agraffiad Rheoliadau Academaidd Cyffredin ar gyfer Dyfarnu Gradd Meistr drwy Ymchwil Prifysgol Cymru</u>

**Tabl Cynnwys**


1 Cyflwyniad....2
2 Graddau Meistr drwy Ymchwil y mae'r Rheoliadau'n Berthnasol Iddynt....2
3 Strwythur, Cymhwysedd a Dulliau Astudio....3
4 Gofynion Mynediad....3
5 Cofrestru....4
6 Cynnydd, monitro ac adroddiadau....4
7 Matriciwleiddio....4
8 Cymeradwyo'r Prosiect Ymchwil....4
9 Dyddiad Dechrau Gradd Meistr drwy Ymchwil....5
10 Cyfnodau astudio gofynnol....5
11 Penodi Goruchwylwyr....6
12 Y Bwrdd Arholi....6
13 Arholiadau....7
14 Apeliadau....9
Atodiad: Fformatio, Rhwymo a Chyflwyno Traethodau Hir....10
1. Fformat y Traethawd Hir....10
2. Rhwymo'r Traethawd Hir....12
3. Cyflwyno'r Traethawd Hir....12

# 1 Cyflwyniad

1.1. Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys y Rheoliadau ar gyfer gradd Meistr drwy Ymchwil Prifysgol Cymru (y cyfeirir ati o hyn allan fel 'y Brifysgol') a gynigir mewn Sefydliadau Achrededig a Chyswllt ('Sefydliadau') ac mewn Canolfannau Cydweithredol ('Canolfannau').

1.2 Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i ymgeiswyr sy'n dechrau ar, neu ar ôl dyddiad cyflwyno'r Fframwaith Academaidd Cyffredin ar gyfer Graddau Ymchwil y Brifysgol, sef 1 Medi 2010. Anogir ymgeiswyr sydd wedi cofrestru mewn Sefydliadau/Canolfannau cyn y dyddiad hwn i gysylltu â'r Gofrestrfa Academaidd [1] briodol er mwyn cael cyngor ar y Rheoliadau sy'n berthnasol i'w hastudiaethau nhw.

1.3.1 Mae'r Rheoliadau'n ceisio darparu fframwaith sy'n ymgorffori arfer da sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol, ynghyd ag arfer sy'n deillio o bolisïau a/neu godau ymarfer cyrff megis yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, y cynghorau cyllido cenedlaethol a chynghorau ymchwil. Mae'r fframwaith felly'n amodol ar adolygiad blynyddol a chaiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd yn unol â gofynion y Bwrdd Academaidd.

1.4 Mae'r Brifysgol yn anelu at sicrhau:

- bod ei safonau academaidd yn gyfartal â safonau sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU ac yn gyson â'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch *a*
- bod ansawdd y ddarpariaeth yn rhoi cyfle teg a rhesymol i ymgeiswyr ennill cymhwyster mewn cyfnod amser derbyniol.

1.5 Mae'r Rheoliadau ar gyfer fformatio, rhwymo a chyflwyno traethodau ymchwil yn cael eu nodi yn yr Atodiad i'r ddogfen hon.

1.6 Dylai pob ymgeisydd sydd wedi cofrestru dan y Rheoliadau canlynol fod yn ymwybodol y gall Sefydliadau/Canolfannau feddu ar ganllawiau ychwanegol a dogfennau perthnasol, ac eto dylid ceisio cyngor gan y Gofrestrfa Academaidd briodol. Yn arbennig, gofynnir i ymgeiswyr ymgyfarwyddo â chynnwys y Llawlyfr Rhaglen perthnasol a fydd ar gael gan y Sefydliad/Canolfan ble maent wedi cofrestru, ynghyd â Chod Ymarfer ar gyfer Graddau Meistr drwy Ymchwil y Brifysgol. Mae dogfennau fel y rhain yn rhoi cyngor ac arweiniad ond maent yn israddol i'r Rheoliadau.

## Graddau Meistr drwy Ymchwil y mae'r Rheoliadau'n Berthnasol Iddynt

2.1 Dyfarnir Gradd Meistr drwy Ymchwil dan y rheoliadau hyn ar gwblhau yn llwyddiannus gwrs cymeradwy a addysgir, y cyfeirir ato o hyn allan fel Rhan Un, ynghyd â chwblhau yn llwyddiannus astudiaeth ac ymchwil pellach, y caiff eu canlyniadau eu barnu i fod yn gyfraniad gwreiddiol at ddysgu, ynghyd â dealltwriaeth ymarferol o sut y defnyddir technegau sefydledig ymchwil i greu a dehongli gwybodaeth yn y pwnc. Mae yn y dosbarth gradd ymchwil.

2.2 Ni ellir cyflwyno'r teitl 'Meistr drwy Ymchwil' y Brifysgol *honoris causa*.

[1] Dylid cymryd mai ystyr y term Cofrestrfa Academaidd yw Cofrestrfa Academaidd, neu awdurdod cyfatebol, y Sefydliad/Canolfan ble mae'r ymgeisydd wedi cofrestru ar gyfer astudio.

## 3 Strwythur, Cymhwysedd a Dulliau Astudio

3.1 Bydd y rhaglen yn cynnwys 180 credyd gyda lleiafswm o 150 credyd ar lefel 7 (lefel meistr) a'r gweddill ar lefel 6 (lefel gradd anrhydedd). Bydd mwy na 90 credyd ar lefel 7 yn gysylltiedig ag elfen ymchwil y dyfarniad.

3.2 Caiff y rhaglen ei rheoli gan Gyfarwyddwr Rhaglen a fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y rhaglen, yn enwedig yr elfennau a addysgir ynghyd â Chydlynydd Rhaglen Ymchwil (neu gyfatebol) gyda chyfrifoldeb penodol dros draethodau hir.

3.3 Arholir myfyrwyr am y radd mewn dwy ran. Bydd Rhan Un yn cynnwys isafswm o 60 credyd ac uchafswm o 90 credyd o ddefnydd wedi ei addysgu, yn cynnwys cyflwyniad i foeseg ymchwil ac i ddulliau ymchwil ansoddol a meintiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth. Bydd pwyslais Rhan Dau ar ymchwil ac fe'i cwblheir trwy gyflwyno traethawd hir ac unrhyw bortffolio o ddeunydd ategol sy'n ymgorffori dulliau a chanlyniadau'r ymchwil..

3.4 Mae'n rhaid i ymgeiswyr am radd Meistr drwy Ymchwil fatriciwleiddio os nad ydynt wedi gwneud eisoes, parhau â'u cofrestriad, talu'r holl ffioedd perthnasol ac ymgymryd â rhaglen ymchwil gymeradwy am yr isafswm cyfnod gofynnol ar gyfer un o'r pedwar dull astudio a ganiateir ym mharagraff 3.2 o'r Rheoliadau isod.

3.5 Gall myfyrwyr ymgymryd â gradd Meistr drwy Ymchwil trwy un o'r dulliau astudio canlynol:

i. ymgymryd â rhaglen Meistr drwy Ymchwil llawn amser mewn Sefydliad/Canolfan
ii. ymgymryd â rhaglen Meistr drwy Ymchwil llawn amser yn allanol mewn man a gymeradwyir gan y Brifysgol i'r diben hwnnw;
iii. ymgymryd â rhaglen Meistr drwy Ymchwil rhan amser mewn Sefydliad neu Ganolfan;
iv. ymgymryd â rhaglen Meistr drwy Ymchwil yn allanol.

## 4 Gofynion Mynediad

4.1 Y gofynion derbyn isaf arferol ar gyfer ymgeiswyr am ddyfarniad meistr drwy ymchwil yw gradd anrhydedd ail ddosbarth sy'n berthnasol i'r prosiect ymchwil arfaethedig, ac a ddyfarnwyd gan Brifysgol yn y DU neu Brifysgol neu sefydliad addysg uwch cydnabyddedig arall, neu gan y Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol (CNAA).

4.2 Mae'n bosibl y caiff ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau derbyn isaf arferol, ond sy'n meddu ar gymhwyster arall neu sydd â phrofiad ar lefel mae Prifysgol Cymru'n barnu i fod y gyfwerth â, neu'n uwch na gradd anrhydedd ail ddosbarth Prifysgol yn y DU, eu hystyried am ymgeisyddiaeth yn ôl eu haeddiant. Mewn achosion o'r fath bydd y Sefydliad/Canolfan yn cymryd y camau y bernir eu bod yn angenrheidiol i brofi addasrwydd academaidd yr ymgeiswyr i ymgymryd ag ymchwil a bydd yn ceisio cymeradwyaeth gan Fwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd y Brifsygol.[2]

4.3 Yn ogystal â'r gofynion mynediad uchod, rhaid i ymgeiswyr allu bodloni'r awdurdodau academaidd perthnasol ynghylch eu gallu yn Gymraeg neu Saesneg ar lefel angenrheidiol i gwblhau'r rhaglen waith yn yr iaith ddewisol ac i baratoi ac amddiffyn traethawd hir ac unrhyw bortffolio yn yr iaith honno.

Fel arfer gall myfyrwyr sydd ag iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg yn famiaith iddynt arddangos hyfedredd yn y Saesneg trwy gael isafswm sgôr IELTS (neu sgôr gyfatebol) o 6.5

adeg mynediad gydag isafswm o 6.5 yn yr elfennau darllen ac ysgrifennu. Gofynnir i fyfyrwyr ddarparu'r dystiolaeth sy'n angenrheidiol ym marn y Brifysgol.

## 5 Cofrestru

5.1 Rhaid i fyfyrwyr am raddau ymchwil gwblhau'r ffurflen gofrestru briodol a darparu'r dogfennau adnabod ffurfiol sy'n ofynnol gan y Brifysgol. Wrth gofrestru daw'r myfyrwyr yn gyfrifol am dalu ffioedd.

## 6 Cynnydd, Monitro ac Adroddiadau

[2] Dylid cymryd mai ystyr cyfeiriadau at y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd yw Bwrdd Academaidd Prifysgol Cymru. (Gweler nodyn 3 isod hefyd, sy'n ymwneud â Phwyllgorau Graddau Ymchwil).

6.1 Bydd y Sefydliad/Canolfan yn sefydlu, o leiaf yn flynyddol, a yw ymgeiswyr:

i. wrthi o hyd yn gweithio ar eu rhaglen ac yn gwneud cynnydd boddhaol;
ii. ar ôl mynd ymlaen at Ran Dau, yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd ac aml â'r tîm goruchwylio;
iii. yn debygol o gwblhau'n llwyddiannus o fewn y cyfnod astudio disgwyliedig.

6.2 Mewn achosion ble nad yw ymgeisydd yn cwblhau'r dyfarniad o fewn un flwyddyn, bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil[3] yn penderfynu a yw cynnydd yn foddhaol ac a ddylid caniatáu ail-gofrestru. Gall ymgeiswyr apelio yn erbyn penderfyniad i derfynu eu hastudiaethau.

6.3 Anogir ymgeiswyr i roi gwybod i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ar unrhyw adeg am faterion sy'n effeithio ar gynnydd boddhaol trwy gyflwyno ffurflen adroddiad ymgeisydd.

6.4 Rhaid i adroddiad blynyddol ar y rhaglen gael ei gyflwyno i Fwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd y Brifysgol.

## 7 Matriciwleiddio

7.1 Ystyr matriciwleiddio yw dilysu'n ffurfiol gymwysterau ymgeiswyr ar gyfer cynllun astudio sy'n arwain at radd neu ddyfarniad academaidd arall gan y Brifysgol. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr nad ydynt yn raddedigion o'r Brifysgol fatriciwleiddio cyn cofrestru. Gellir cael manylion y broses o fatriciwleiddio o Gofrestrfa Academaidd, neu gyfwerth, y Sefydliad/Canolfan.

[3] Dylid cymryd mai ystyr cyfeiriadau at Bwyllgor/Pwyllgorau Graddau Ymchwil Sefydliadau/Canolfannau yw Pwyllgorau Sefydliad/Canolfan.

7.2 Nid yw ymgeiswyr sydd heb fatriciwleiddio yn gymwys i gyflwyno am y radd.

## 8 Cymeradwyo'r Prosiect Ymchwil

8.1 Wrth iddynt gwblhau Rhan Un, neu yn syth wedi hynny, mae'n rhaid i fyfyrwyr y dyfarniad Meistr drwy Ymchwil yn y Brifysgol gael cymeradwyaeth y Cydlynydd Rhaglen Ymchwil ar gyfer y prosiect ymchwil, fel y disgrifir ar y Ffurflen Cynnig Meistr drwy Ymchwil. Rhaid cyflwyno rhestr o brosiectau i Bwyllgor Graddau Ymchwil y Sefydliad neu Ganolfan cyn gynted ag y bo modd.

8.2 Gall y Cydlynydd Rhaglen Ymchwil gymeradwyo prosiectau ymchwil neu gall wrthod cymeradwyaeth ar sail academaidd, yn cynnwys methodoleg neu gyfleusterau ymchwil annigonol neu amhriodol. Os fydd yr ymchwil yn cynnwys cyfranogwyr dynol, defnydd dynol, data personol neu anifeiliaid, rhaid cael cymeradwyaeth foesol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil sy'n gymeradwy gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol.

## 9 Dyddiad Dechrau Rhaglen Meistr drwy Ymchwil

Dyddiad dechrau rhaglen astudio gradd ymchwil yw'r dyddiad cofrestru cychwynnol.

## 10 Cyfnodau Astudio Gofynnol

10.1 Nodir isod y cyfnodau astudio gofynnol ar gyfer ymgeiswyr sy'n ymgymryd â dyfarniad Meistr drwy Ymchwil y Brifysgol gan gyfeirio at y dulliau ymgeisyddiaeth a nodir yn adran 3. Gellir ystyried addasiadau priodol ar gyfer ymgeiswyr sydd, trwy gais i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil, yn derbyn sêl bendith i newid dull eu hymgeisyddiaeth.

i. Ymgeiswyr llawn amser (gweler is-baragraffau 3.2(i) a 3.2(ii)).

| *Isafswm* | *Uchafswm ar gyfer cyflwyno traethawd hir* |
|---|---|
| 1 flwyddyn | 2 flynedd |

ii. Ymgeiswyr rhan amser (gweler is-baragraffau 3.2(iii) a 3.2(iv)).

| *Isafswm* | *Uchafswm ar gyfer cyflwyno traethawd hir* |
|---|---|
| 2 flynedd | 4 blynedd |

10.2 Nid yw'r cyfnodau astudio gofynnol yn cynnwys cyfnodau pan mae'r astudiaeth wedi'i gohirio yn unol â pharagraff 10.4.

10.3 Dim ond mewn amgylchiadau neilltuol y gellir caniatáu estyniad i'r uchafswm cyfnodau cofrestru, yn unig yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Fel arfer caiff ceisiadau o'r fath eu hystyried yn dilyn cyngor y Cyfarwyddwr Astudiaethau ac awdurdodau academaidd y Sefydliad/Canolfan.

10.4 Gall ymgeiswyr wneud cais i gael y cyfnod astudio wedi'i ohirio lle mae amgylchiadau neilltuol yn atal cynnydd boddhaol. Gellir argymell cyfnod wedi'i ohirio o hyd at un flwyddyn. Os gwneud cais am ail gyfnod wedi'i ohirio ni chaiff ei ganiatáu oni bai bod yr amgylchiadau neilltuol yn debygol o fod wedi eu datrys yn ddigonol cyn diwedd yr ail gyfnod wedi'i ohirio i'r ymgeisydd gwblhau'r rhaglen ymchwil heb gais pellach am gyfnod wedi'i ohirio.

10.5 Adwaenir yr amser rhwng isafswm ac uchafswm y cyfnod astudio fel y cyfnod parhad. Gall y Sefydliad/Canolfan astudio ofyn i ymgeiswyr dalu ffi am y cyfnod parhad. Yn ystod y cyfnod parhad dylai ymgeiswyr ddisgwyl goruchwyliaeth barhaus ar lefel briodol yn ôl diffiniad y Sefydliad/Canolfan.

## 11 Penodi Goruchwylwyr

11.1 O'r amser pan gaiff y cynnig ymchwil ei dderbyn, rhaid i ymgeiswyr am ddyfarniad Meistr drwy Ymchwil gael goruchwyliwr sy'n gymeradwy gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil y mae'n rhaid iddo fod yn aelod o staff academaidd y Sefydliad neu Ganolfan, gyda chontract sy'n cyfateb i o leiaf 0.4 swydd lawn amser. Rhaid i bob goruchwyliwr for ar gofrestr briodol Prifysgol Cymru. Fel arfer y Cydlynydd Rhaglen Ymchwil fydd ail aelod y tîm goruchwylio.

11.2 Rhaid i'r goruchwyliwr ddangos tystiolaeth o weithgarwch ymchwil diweddar ym maes pwnc y prosiect ymchwil yn ogystal ag arbenigedd arall berthnasol sydd ei hangen i gwblhau dyletswyddau goruchwylio'r tîm.

11.3 Gellir penodi unigolion ag arbenigedd sy'n berthnasol i'r prosiect ymchwil nad ydynt yn gymwys i fod yn oruchwylwyr i'r tîm fel ymgynghorwyr.

## 12 Y Bwrdd Arholi

12.1 Bydd Bwrdd Dilyniant ar gyfer Rhan Un y rhaglen. Bydd y Bwrdd Dilyniant yn cynnwys:

i. Cadeirydd;
ii. Rheolwr Rhaglen;
iii. Cydlynydd Rhaglen Ymchwil;
iv. aelodau'r Tîm Rhaglen;
v. i Ganolfannau, Safonwr Prifysgol Cymru ar gyfer y rhaglen;
vi. i Ganolfannau, cynrychiolydd gweinyddol Prifysgol Cymru;
vii. o leiaf un Arholwr Allanol wedi ei benodi yn unol â rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer rhaglenni a addysgir.

12.2 Bydd Bwrdd Arholi ar wahân ar gyfer pob myfyriwr yn Rhan Dau'r rhaglen. Swyddogaeth Byrddau Arholi o'r fath yw sicrhau bod y traethawd hir ac unrhyw bortffolio a gyflwynwyd ar gyfer dyfarniad wedi cyrraedd y safon briodol, mai gwaith y myfyriwr sy'n cael ei arholi ydyw a bod y myfyriwr yn arddangos y nodweddion a ddisgwylir gan ddeiliaid y dyfarniad.

12.3 Fel arfer bydd Bwrdd Arholi ar gyfer Rhan Dau yn cynnwys y canlynol:
i. Cadeirydd;
ii. Arholwr Mewnol;
iii. Arholwr Allanol.

12.4 Os fydd yn amhosib penodi arholwr mewnol priodol o'r tu fewn i'r ganolfan, gellir penodi arholwr mewnol o Ganolfan arall, neu o un o'r sefydliadau sy'n achrededig gan Brifysgol Cymru.

12.5 Mewn achosion yn cynnwys y rheini lle:

i. mae'r ymgeisydd yn aelod o staff y Sefydliad/Canolfan;
ii. mae'n profi'n amhosibl penodi arholwr mewnol naill ai o'r tu fewn i'r Sefydliad/Canolfan, neu o Sefydliad/Canolfan arall Prifysgol Cymru;
iii. gwneir achos am arholwr sydd â gwybodaeth arbenigol o faes yr ymgeisydd, ond nad yw'n bodloni'r meini prawf arferol am arholwr allanol;
iv. gwneir achos arbennig i, neu gan y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd.

bydd y Bwrdd Arholi yn hytrach yn cynnwys:

i Cadeirydd;
ii Arholwr Allanol;
iii Arholwr Allanol.

12. Rhaid i'r Cadeirydd fod yn brofiadol ac wedi derbyn hyfforddiant addas ac fel arfer yn Bennaeth Adran neu Ddeon (neu'n uwch aelod o staff sydd wedi ei enwebu ganddynt) yn y Sefydliad neu ganolfan ble mae'r ymgeisydd sydd i'w arholi wedi cofrestru. Mewn Sefydliadau neu Ganolfannau gyda niferoedd bach o staff, a ble y gall hynny achosi problemau gydag annibyniaeth y Cadeirydd, gellir penodi Cadeirydd o Sefydliad neu Ganolfan arall. Y Pwyllgorau Graddau Ymchwil sy'n trefnu cyfansoddiad Byrddau Arholi.

12.7 Ni chaiff aelod o dîm goruchwylio ei benodi'n arholwr ar yr ymgeisydd.

12.8 Rhaid i arholwr(wyr) allanol fod yn ymwybodol o natur a phwrpas y radd y mae'r ymgeisydd yn cael ei arholi amdani a rhaid iddynt feddu ar allu a gwybodaeth arbenigol ym maes y prosiect ymchwil yn ogystal â gwybodaeth o sector addysg uwch y DU a phrofiad o arholi traethodau hir ar lefel meistr.

## 13 Arholiadau

### *Rhan Un*

13.1 Bydd Rhan Un yn cynnwys arholiadau ar lefel uwch mewn meysydd astudio a bennir gan y rhaglen dan sylw. Gall yr arholiadau hyn gynnwys gwerthuso unrhyw arfer a hyfforddiant proffesiynol/diwydiannol, a gallant fod ar ffurf papurau arholiad ysgrifenedig nas gwelir o flaen llaw, neu brosiectau gosod neu ffurfiau eraill ar asesiadau cwrs. Y marc llwyddo ar gyfer Rhan Un yw 40%, ac ni chaniateir cydadferiad rhwng modylau oni nodir hynny ar adeg dilysu. Os caniateir cydadferiad o fewn modiwl unigol, rhaid i'r ar gyfer y modiwl hwnnw fod yn ddim llai na 40% ac ni ddylai marc llwyddo unrhyw asesiad unigol fod yn llai na 35%. Os caniateir cydadferiad rhwng modiwlau ni ddylai'r marc llwyddo cyfartalog ar gyfer Rhan Un fod yn llai na 40%, rhaid i farciau pob modiwl fod yn fwy na 35% ac ni ellir cydadfer mwy na 25% o gredydau Rhan Un yn y modd hwn. Gellir esgusodi ymgeiswyr o elfennau penodedig o Ran Un y rhaglen trwy gyfrwng gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer APL ac APEL, ond ni ddylai esgusodi o'r fath fod yn fwy na 50% o gredydau Rhan Un.

Dylai'r Bwrdd Dilyniant wneud argymhelliad ar gyfer pob ymgeisydd gan nodi eu bod:

i. yn gallu symud ymlaen i Ran Dau y rhaglen gyda'r posibilrwydd o ennill dyfarniad gyda Chlod Uchel (dim ond mewn achosion ble mae'r ymgeisydd wedi ennill marc cyfartalog o 70% neu fwy)
ii. yn gallu symud ymlaen i Ran Dau y rhaglen;
iii. wedi methu.

13.2 Fel arfer disgwylir i unrhyw ymgeisydd sy'n absennol o arholiad cyfan neu ran o arholiad ysgrifenedig mewn unrhyw flwyddyn ail sefyll yr arholiad cyfan. Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, gellir caniatáu cynnal arholiad ychwanegol neu gellir defnyddio dulliau eraill o asesiad ychwanegol. Caniateir i ymgeisydd sydd wedi cael caniatâd i sefyll arholiadau yr oedd yn absennol ohono, yn ôl disgresiwn y Bwrdd Dilyniant, wedi cyfnod o ddim hwy na phymtheg mis o ddyddiad yr arholiad gwreiddiol.

13.3 Gall unrhyw ymgeisydd sy'n methu ond ail gyflwyno ei hun ar gyfer arholiad un waith, a hynny gyda chaniatâd y Bwrdd Dilyniant. Dylai ail arholi ddigwydd o fewn cyfnod o ddim hwy na phymtheg mis o ddyddiad yr arholiad gwreiddiol. Yn ôl disgresiwn y Bwrdd Dilyniant fe ellir gofyn i ymgeisydd o'r fath:

i. ail wneud y cwrs a chael ei ail arholi yn yr arholiadau ysgrifenedig neu'r prosiectau gosodedig neu ffurfiau eraill ar asesiadau cwrs fel cyfanwaith;
*neu*

ii. gael ei ail arholi yn yr arholiadau ysgrifenedig neu'r prosiectau gosodedig neu ffurfiau eraill ar asesiadau cwrs fel cyfanwaith neu yn y rhannau hynny o'r arholiad neu'r prosiectau gosodedig neu ffurfiau eraill o asesiad cwrs y mae ef neu hi wedi methu.

Bydd gwaith sy'n cael ei ail arholi ond yn gymwys ar gyfer y marc llwyddo isaf. Gall ffi ail arholi fod yn daladwy.

13.4 Ni chaniateir i ymgeisydd sydd i gael ei ail arholi ar brosiectau gosodedig neu ffurfiau eraill ar asesiad cwrs dan is-baragraffau (i) neu (ii) uchod, ac eithrio mewn achos o gydrannau clinigol neu ymarferol, ail gyflwyno fersiynau diwygiedig o'i waith gwreiddiol, ond bydd angen iddo gyflwyno gwaith newydd i'w arholi ar wahanol bynciau i'r rhai a fethodd â bodloni'r arholwyr yn wreiddiol. Yn achos cydrannau clinigol neu ymarferol, gall y Bwrdd Dilyniant ganiatáu i ymgeisydd ail gyflwyno gwaith diwygiedig i'w ail arholi yn seiliedig ar y profiad clinigol neu ymarferol gwreiddiol.

***Rhan Dau***

13.5 Bydd ymgeisydd wedi cwblhau Rhan Un yn llwyddiannus erbyn dyddiad wedi ei benodi gan y Bwrdd Arholi cyn cael caniatâd i gyflwyno'r traethawd hir ac unrhyw bortffolio i'w harholi.

13.6 Mae myfyrwyr Rhan Dau rhaglen Meistr drwy Ymchwil yn cael eu harholi ar y gwaith ymchwil a gyflwynir ganddynt. Wrth farnu ynghylch teilyngdod traethawd hir ac unrhyw bortffolio a gyflwynir mewn ymgeisyddiaeth am y radd, bydd yr arholwyr yn cadw mewn cof safon a chwmpas gwaith a gwblhawyd yn flaenorol ar gyfer Rhan Un y rhaglen a safon a chwmpas gwaith ar gyfer Rhan Dau y gellid disgwyl yn rhesymol i fyfyriwr galluog a diwyd ei gyflwyno.
Mae'r broses arholi'n cynnwys archwiliad annibynnol o'r traethawd hir ac unrhyw bortffolio gan yr arholwyr mewnol ac allanol, a gymeradwyir i'r pwrpas gan y Brifysgol, ac a fyddant yn paratoi adroddiadau annibynnol ar y traethawd hir ac unrhyw bortffolio, ac yn gwneud argymhelliad ar y cyd:

i. y dylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd Meistr drwy Ymchwil; *neu*

ii. y dylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd Meistr drwy Ymchwil, yn amodol ar gwblhau'n foddhaol y cywiriadau a'r newidiadau hynny a all fod yn ofynnol yn ôl y Bwrdd Arholi. Gall y Bwrdd Arholi fynnu bod y cywiriadau a wneir yn cael eu harchwilio gan y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau arholwr, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu. Dylid cwblhau'r cywiriadau o fewn 6 wythnos waith ar ôl y dyddiad yr hysbysir yr ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad; *neu*

iii. y dylid caniatáu i'r ymgeisydd ddiwygio'r traethawd hir ac unrhyw bortffolio a'u hailgyflwyno i'w

hailarholi am radd Meistr drwy Ymchwil ar un achlysur arall, gan dalu unrhyw ffi ail gyflwyno. Dylid ailgyflwyno'r gwaith o fewn cyfnod o ddim mwy nac un flwyddyn ar ôl y dyddiad yr hysbysir y myfyriwr yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad. (Nid yw'r opsiwn hwn ar gael yn achos myfyriwr sydd wedi ailgyflwyno traethawd hir ac unrhyw bortffolio i'w harholi); *neu*

iv. na ddylid cymeradwyo'r myfyriwr am radd Meistr drwy Ymchwil, ond y dylid ei gymeradwyo yn hytrach am ddiploma ôl-raddedig priodol, fel y nodir yn y Llawlyfr Rhaglen perthnasol ac sy'n seiliedig ar Ran Un y rhaglen; *neu*

v. na ddylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd.

Yn achosion (i) a (ii), gall arholwyr ystyried yr ymgeiswyr hynny a gyflawnodd 70 % neu fwy yn Rhan Un am ddyfarniad gyda chlod uchel.

13.7 Os na all arholwyr gytuno ar y canlyniad, bydd y Cadeirydd yn hwyluso trafodaeth i ddatrys hyn. Os na ellir dod i gytundeb, bydd Arholwr Allanol ychwanegol yn cael ei benodi.

## 14 Apeliadau

14.1 Mae gan fyfyrwyr yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'n ymwneud â chymeradwyo cynigion, terfynu astudiaeth neu, mewn rhai amgylchiadau dilys, yn erbyn canlyniad y broses arholi, yn unol â'r gweithdrefnau a sefydlwyd i'r diben hwnnw

## Atodiad 1: Fformatio, Rhwymo a Chyflwyno'r Traethawd

1. ***Fformat y Traethawd***

1.1 Mae ymchwil ymgeisydd am radd Meistr drwy Ymchwil i'w gwblhau trwy gyflwyno traethawd hir a, ble'n briodol, portffolio yn ymgorffori dulliau a chanlyniadau'r ymchwil.

1.2 Dylid ysgrifennu'r traethawd neu bortffolio yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Caniateir defnyddio dyfyniadau byr mewn ieithoedd eraill. Rhaid i hyd y traethawd hir fod yn briodol i'r maes pwnc dan sylw ac i nifer y credydau sy'n gysylltiedig a Rhan Dau y rhaglen. Ni ddylai fod yn fwy na 40,000 o eiriau mewn unrhyw achos, gan eithrio troednodiadau a chyfeiriadau.

1.3 Caniateir cynnwys atodiadau yn y traethawd ar gyfer cyflwyno data a/neu ddeunydd nad oes angen i'r arholwyr ei ddarllen er mwyn arholi'r traethawd yn ddigonol, ond y gallent gyfeirio ato os ydynt yn dymuno.

1.4 Gall ymgeiswyr sy'n dilyn prosiectau graddau ymchwil cymeradwy ym maes pwnc Celfyddydau Creadigol a Pherfformio wneud cyflwyniad ar ffurf un neu fwy o'r canlynol: arteffact, sgôr, portffolio o waith gwreiddiol, perfformiad neu arddangosfa. Bydd y cyflwyniad yn cynnwys sylwebaeth neu ddadansoddiad testunol o 2,000–3,000 o eiriau yn ei osod yn ei gyd-destun academaidd ac a fydd yn rhan o gorff cyfan y defnydd ysgrifenedig, a fydd yn uchafswm o 20,000 o eiriau. Rhaid i'r defnydd ysgrifenedig hwn gynnwys adlewyrchiad feirniadol ar fethodoleg yr ymchwil a'r dulliau a ddefnyddiwyd, dangos gwreiddioldeb y modd y mae'r ymgeisydd yn credu mae'r wybodaeth wedi cael ei defnyddio a datgan sail resymegol i brofi safon sydd o leiaf yn gyfartal â'r safon a ddangosir fel arfer gan draethawd hir MRes llwyddiannus.

1.5 Ni chaniateir cyflwyno traethawd hir hwy na'r hyn a nodir uchod oni cheir sêl bendith y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Rhaid gwneud cais i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil i ysgrifennu mwy na'r uchafswm a bennir ymhell cyn hysbysu y bwriedir cyflwyno'r traethawd.

1.6 Nid oes manylion wedi'u pennu ar gyfer fformat mewnol y traethawd hir, ond dylid trafod y strwythur gyda'r goruchwylwyr a defnyddio'r strwythur mwyaf priodol i'r maes pwnc. Bydd yr arholwyr yn disgwyl i gyflwyniad y traethawd fod yn raenus gyda threfn gyson o ran mynegeio a chyfeirnodi gydol y gwaith.

1.7 Rhaid cyflwyno pob copi o draethawd hir, boed at ddibenion arholi neu i'w gadw mewn llyfrgell, ar ffurf barhaol a darllenadwy mewn teipysgrif neu brint ac mewn fformat electronig. Dylai fod copi electronig ar ffurf dogfen Adobe PDF (gweler "Gweithdrefn cyflwyno e-draethodau ymchwil" am arweiniad ynghylch fformatio a throsi ffeiliau). Rhaid i'r llythrennau a ddefnyddir yn y prif destun (ond nid o reidrwydd yn y darluniau, mapiau ac ati) beidio â bod yn llai na 12pt; rhaid i lythrennau a ddefnyddir ym mhob testun arall, nodiadau, troednodiadau ac yn y blaen, beidio â bod yn llai na 10pt. Rhaid i'r teipio fod o ansawdd cyson gyda llythrennau du clir, fel y gellir llungopïo'r gwaith. Rhaid defnyddio bylchiad dwbl neu un a hanner yn y prif destun, a bylchiad sengl yn y crynodeb ac mewn unrhyw ddyfyniadau wedi'u mewnoli a throednodiadau.

1.8 Rhaid i ddarluniau a brasluniau fod mewn inc du; rhaid hepgor unrhyw fanylion dianghenraid a rhaid defnyddio graddfa sy'n sicrhau nad yw'r gofod lleiaf rhwng y llinellau yn llai nag 1mm. Gellir defnyddio graffigwaith lliw ar gyfer siartiau, diagramau ac ati yn ogystal â ffotograffau lliw, ond rhaid i ymgeiswyr sicrhau ym mhob achos bod modd llungopïo a microffilmio'r deunydd. Gellir cynnwys delweddau wedi'u sganio yn y copi electronig. Mae copïau a gynhyrchwyd drwy broses serograffig neu brosesau parhaol tebyg yn dderbyniol. Dylid cyflwyno'r traethodau

ymchwil ar bapur A4 (297mm x 210mm) o ansawdd da ac yn ddigon didraidd ar gyfer dibenion darllen arferol.

1.9 Dylai lled yr ymylon fod yn ddim llai na'r meintiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Ymyl fewnol | 40mm |
| Ymyl uchaf ac allanol | 15mm |
| Ymyl isaf | 20mm |

1.10 Dylid rhifo'r tudalennau yn olynol. Rhaid darparu rhestr gynnwys a thabl o ddarluniau (os oes rhai).

Oddi mewn i'w rwymiad rhaid i'r traethawd hir gynnwys:

i. crynodeb nad yw'n hwy na 300 o eiriau i'w roi ar flaen y traethawd hir;
ii. datganiad, wedi'i lofnodi gan yr ymgeisydd, yn dangos i ba raddau y mae'r gwaith a gyflwynir yn ganlyniad i ymchwil yr ymgeisydd ei hun;
iii. datganiad, wedi'i lofnodi gan yr ymgeisydd, i dystio nad yw sylwedd y gwaith eisoes wedi'i dderbyn am radd ac nad yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd arall;
iv datganiad wedi'i arwyddo ynglŷn ag argaeledd y traethawd hir (gweler paragraff 1.15).

1.11 Ar ei dudalen deitl rhaid i'r traethawd hir gynnwys:

i. enw llawn a graddau'r awdur;
ii. y teitl;
iii. y radd y cynigir y traethawd amdani ac enw'r corff dyfarnu;
iv. y ddisgyblaeth neu'r disgyblaethau y perthyn iddynt;
v. y dyddiad cyflwyno;
vi. enwau'r Cyfarwyddwr Astudiaethau a'r ail oruchwylydd/oruchwylwyr;
vii. enw(au) unrhyw sefydliad(au) cydweithredol;
viii. datganiad sy'n nodi i'r ymchwil gael ei gyflwyno dan nawdd y Sefydliad/Canolfan i gyflawni'n rhannol y gofynion ar gyfer dyfarnu Gradd Prifysgol Cymru.

1.12 Caiff ymgeiswyr gyflwyno deunydd nad yw wedi'i rwymo gyda'r traethawd os mai hwn yw'r dull mwyaf priodol o gyflwyno'r wybodaeth dan sylw. Gallai'r deunydd gynnwys diagramau, mapiau a dogfennau tebyg eraill, neu ddeunydd megis recordiadau sain neu fideo, sleidiau, ffilmiau ayb. Yn y traethawd dylid darparu rhestr o'r eitemau sydd ar wahân. Dylid cynnwys copïau electronig o'r deunydd ychwanegol hwn ynghyd â chopi electronig o'r traethawd. Rhaid amgáu unrhyw ddeunydd o'r math hwn mewn cynhwysydd sy'n addas i'w storio ar silff lyfrgell a rhaid nodi ar y cynhwysydd yr un wybodaeth ag sy'n ofynnol ar feingefn y traethawd, mewn man priodol fel ei bod yn ddarllenadwy pan fydd y cynhwysydd yn ei safle storio (gweler paragraff 2.2).

1.13 Fel arfer bydd traethawd hir a gyflwynir am ddyfarniad Meistr drwy Ymchwil ar gael i bawb a heb fod yn ddarostyngedig i unrhyw ddosbarthiad diogelwch na chyfyngiad ar yr hawl i'w weld. Gall y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd fodd bynnag gymeradwyo gwahardd llungopïo traethawd ymchwil a / neu atal yr hawl i'w weld am gyfnod penodedig o hyd at bum mlynedd. Lle bynnag y bo hynny'n berthnasol, dylai'r ymgeisydd wneud cais i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ynghylch gwahardd llungopïo'r traethawd a/neu atal yr hawl i'w weld cyn neu ar adeg cofrestru prosiect ymchwil yr ymgeisydd, neu ar ôl hynny.

1.14 Wrth gyflwyno'r traethawd hir, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr lofnodi datganiad sy'n dynodi:

i. y trefnir bod y traethawd hir, os yw'n llwyddiannus, ar gael i'w fenthyca rhwng llyfrgelloedd neu i'w lungopïo (yn amodol ar gyfraith hawlfraint), ac y gellir trefnu bod y teitl a'r crynodeb ar gael i gyrff allanol;

ii. y gall y Brifysgol storio'n electronig, gopïo neu drosi'r traethawd hir i unrhyw gyfrwng neu

fformat cymeradwy er mwyn ei gadw i'r dyfodol a sicrhau bod modd ei weld;

iii. y bydd y traethawd hir a adneuir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau ei weld, gan gynnwys cyfryngau awtomataidd a pheiriannau chwilio trwy gyfrwng y We Fyd-Eang;

iv. unwaith yr adneuir y traethawd hir, y gellir ymgorffori'r eitem a'i meta data mewn catalogau neu wasanaethau sy'n agored i'r cyhoedd, megis cronfeydd data cenedlaethol o draethodau electronig;

*neu*

v. y gellir trefnu y bydd y traethawd hir, os yw'n llwyddiannus, ar gael yn y modd hwn wedi i'r gwaharddiad rhag ei lungopïo a/neu'i weld ddod i ben.

1.15 Fel rheol, bydd teitl a chrynodeb y traethawd hir ar gael i bawb.

## 2. *Rhwymo'r Traethawd Hir*

2.1 Caiff ymgeisydd sy'n cyflwyno traethawd hir am radd uwch i'w arholi gyflwyno'r traethawd mewn rhwymiad dros dro. Wedi iddo gael ei arholi dylid rhwymo pob copi o'r traethawd yn barhaol i'w storio mewn llyfrgell.

2.2 Bydd rhwymiad dros dro yn caniatáu i'r ymgeisydd gwblhau unrhyw gywiriadau sy'n ofynnol gan yr arholwyr heb orfod dadrwymo ac yna ad-drefnu'r traethawd hir. Er mwyn ei arholi, rhaid i bob copi fod â'i ddalennau wedi'u dal yn gadarn mewn ffolder neu ffeil neu gan feingefn (h.y. wedi'u dal yn eu lle fel bod y tudalennau'n parhau'n ddiogel o fewn y cloriau pan agorir y gyfrol yn llawn). Nid yw ffolderi sy'n rhyddhau tudalennau wrth eu hagor, ffeiliau modrwy na thudalennau rhydd mewn ffolder ar ffurf waled yn dderbyniol.

2.3 Rhaid i draethawd hir sydd wedi'i rwymo dros dro fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll cael ei gludo. Rhaid iddo gynnwys ar y meingefn enw'r ymgeisydd, enwau'r Brifysgol, a'r radd y mae'n ymgeisio amdani.

2.4 Yn dilyn arholiad llwyddiannus a/neu gwblhau adolygiadau i'r traethawd hir yn llwyddiannus, rhaid rhwymo'r traethawd yn barhaol i'w adneuo mewn llyfrgell. Mae rhwymo'n barhaol yn golygu gwnïo'r traethawd ag edau a'i rwymo mewn rhwymiad sefydlog o gloriau cerdyn du gyda lliain, neu liain i gyd, ar ffurf llyfr clawr caled. Rhaid i'r cloriau fod yn ddigon cadarn i gynnal pwysau'r gwaith pan fydd yn sefyll ar silff. Yn achos pob gwaith sydd i'w adneuo mewn llyfrgelloedd, rhaid i'r cyfrolau a rwymwyd yn barhaol gynnwys ar eu meingefn gyfenw a blaenlythrennau'r ymgeisydd, teitl llawn neu deitl talfyredig y gwaith, enw'r radd y'i cyflwynir amdani a'r dyddiad cyflwyno. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei phrintio ar hyd y meingefn yn y fath fodd fel y bo'n ddarllenadwy pan fo'r gyfrol yn gorwedd ar ei chefn gyda'r clawr blaen ar i fyny. Os yw'r gwaith yn cynnwys mwy nag un gyfrol dylid nodi rhif pob cyfrol ar y meingefn yn ogystal.

2.5 Dylai'r un wybodaeth ymddangos ar glawr blaen y traethawd hir.

2.6 Rhaid i'r llythrennau ar y meingefn a'r clawr blaen fod yn aur.

## *3 Cyflwyno'r traethawd hir*

3.1 O fewn y cyfnod cofrestru rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno i'r Gofrestrfa Academaidd:

i. ddau gopi o'r traethawd hir, boed wedi'u rhwymo dros dro neu'n barhaol, ac unrhyw

ddeunydd ar wahân;

ii. copi rhydd ychwanegol o'r crynodeb y cyfeirir ato ym mharagraff 1.8 wedi'i drawsgrifio ar y ffurflen angenrheidiol;
iii. datganiad wedi'i lofnodi ynghylch argaeledd y traethawd hir;
iv. dwy ffurflen 'Hysbysu am Ymgeisyddiaeth' wedi'u cwblhau, gyda chopïau ar gael o'r Gofrestrfa Academaidd;
v. tystiolaeth ofynnol gan y Sefydliad/Canolfan i ddangos bod yr holl ymrwymiadau, yn cynnwys talu ffioedd ac arian sy'n ddyledus, wedi'u talu.

Ni chaiff ymgeisydd ddiwygio, ychwanegu at na dileu o'r traethawd hir na'i dynnu'n ôl wedi iddo gael ei gyflwyno a chyn iddo gael ei arholi, ac eithrio gyda chydsyniad Cadeirydd y Bwrdd Arholi.